

Crynodeb Gwirio Ansawdd
Adran Achosion Brys,
Ysbyty Maelor Wrecsam
Dyddiad y gweithgarwch: 10 a 26
Tachwedd 2020

Dyddiad cyhoeddi: 05 Chwefror 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd dilynol o bell o'r Adran Achosion Brys, Ysbyty Maelor Wrecsam fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill).

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd ac arolygu [yma](#).

Crynodeb

Yn ystod y gwiriad ansawdd dilynol, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r argymhellion a wnaed gan AGIC yn dilyn ei arolygiad blaenorol er mwyn sicrhau y gall barhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar y claf. Cynhaliwyd y gwiriad ansawdd dilynol o bell heb ymweld â'r safle.

Arolygodd AGIC yr Adran Achosion Brys yn Ysbyty Maelor Wrecsam ddiwethaf ar 06 a 07 Awst 2019. Diben y gwiriad ansawdd dilynol oedd cadarnhau'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r argymhellion yn y cynllun gwella a gyhoeddwyd o ganlyniad i bryderon AGIC yn yr arolygiad dilynol blaenorol. Yn yr adroddiad hwn, ceir manylion y materion a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol yr oedd AGIC wedi gofyn i'r bwrdd iechyd gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â nhw, a meysydd eraill i'w gwella, ynghyd ag ymateb y bwrdd iechyd.

Gwnaethom siarad â Phennaeth Nyrsio'r Adran Achosion Brys a Metron y Ward ar ddau achlysur ar 10 Tachwedd 2020 a 26 Tachwedd 2020. Rhoesant wybodaeth inni am eu taith fel tîm arwain ers arolygiad dilynol diwethaf AGIC. Gwnaethant sôn wrthym am yr ymdrechion a oedd wedi'u gwneud i wella'r diwylliant a'r trefniadau llywodraethu yn yr Adran Achosion Brys, yn arbennig o ystyried yr heriau ychwanegol yn gysylltiedig â phandemig byd-eang COVID-19. Gwnaethom hefyd edrych ar dystiolaeth ddogfennol a ddarparwyd gan y bwrdd iechyd, er mwyn ategu'r camau a gymerwyd yn sgil y pryderon a leisiwyd gennym yn yr arolygiad ym mis Awst 2019.

At hynny, gwnaethom ofyn i'r bwrdd iechyd ddarparu esboniad ysgrifenedig o'r ffordd y mae'n sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli er mwyn cadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel yn ystod pandemig COVID-19.

Profiad y Claf

Yn ystod ein harolygiad ym mis Awst 2019, nodwyd gennym faterion o ran profiad y claf a oedd yn cynnwys cyfathrebu gwael o ran hysbysu cleifion am amseroedd aros, y ffaith nad oedd digon o wybodaeth ar gael i gleifion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r angen i fonitro amseroedd aros a'r angen i roi strategaethau eraill ar waith i wella llif cleifion drwy'r adran.

Yn ystod y gwiriad ansawdd dilynol, roedd yn gadarnhaol gweld bod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno'r rhan fwyaf o'r gwelliannau a restrwyd yn ei gynllun gwella yn dilyn yr arolygiad diwethaf ac wedi parhau i'w gweithredu. Gwnaethom gyngori bod angen gwneud gwelliannau pellach er mwyn sicrhau bod amseroedd aros yn cael eu cyfleu'n gywir i gleifion. Tynnir sylw at hyn yn yr adran nesaf o'r adroddiad a'r cynllun gwella ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Gwelliannau yr oedd eu hangen yn dilyn yr arolygiad diwethaf

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod Cynllun Pili Pala yn cael ei roi ar waith yn gyson yn yr adran.¹
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amseroedd aros yn cael eu cyfleu'n gywir.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i gleifion drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd annog y staff i beidio â defnyddio byrfoddau wrth siarad â'r cleifion ac ymwelwyr.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro amseroedd aros a rhoi strategaethau eraill ar waith i wella llif cleifion drwy'r adran.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau o Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)² yn cael eu cynnal ar gleifion sydd â symptomau

¹Er mwyn cefnogi diogelwch a llesiant aelodau unigol o'r staff, gwelsom fod y staff wedi cwblhau Asesiad Risg COVID-19 Cymru Gyfan er mwyn asesu eu hamgylchiadau personol mewn perthynas â'r pandemig

² Mae DoLS yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Nod y trefniadau diogelu yw sicrhau y gofelir am bobl mewn cartrefi gofal ac ysbysai mewn ffordd nad yw'n cyfyngu'n amhriodol ar eu rhyddid.

cyflyrau megis dementia, anaf i'r pen neu ddrysu'n gyffredinol, fel mater o drefn.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

- Gwelsom dystiolaeth o ohebiaeth a oedd wedi'i dosbarthu i staff yr Adran Achosion Brys yn dilyn yr arolygiad ym mis Awst 2019. Roedd yr ohebiaeth hon yn cynnwys defnyddio Cynllun Pili Pala. Gwelsom hefyd fod y daflen cofnodi sgrymiau diogelwch wedi'i diweddarau er mwyn sicrhau bod arweinwyr sifft yn monitro cydymffurfiaeth. Roedd dogfennaeth nyrsio newydd wedi'i chyflwyno a oedd yn cynnwys rhoi Cynllun Pili Pala ar waith. Gwnaethom hefyd edrych ar enghraifft o archwiliad rowndiau ward wythnosol y Fetron dyddiedig 12 Awst i 21 Hydref 2020 a oedd yn dangos bod asesiadau wedi'u cwblhau lle roedd eu hangen. Yn dilyn trafodaethau â'r Fetron, roeddem yn hyderus bod anghenion cleifion â dementia bellach yn cael eu hystyried.
- Dywedwyd wrthym y byddai amseroedd aros yn cael eu diweddarau bob awr yn yr ardal aros ar y bwrdd gwyn penodedig a system llais fewnol a ddefnyddir i gyhoeddi'r amseroedd aros bob awr. Y bwriad oedd y byddai hyn yn cael ei fonitro drwy hapwiriadau rheolaidd. Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wedi ystyried y posibilrwydd o gyflwyno sgriniau 'ticker' i arddangos amseroedd aros yn yr adran. Fodd bynnag, nid oedd defnyddio sgriniau o'r fath yn opsiwn ymarferol oherwydd systemau TG cymhleth. Yn ystod ein cyfweiliad â Phennaeth Nyrsio'r Adran Achosion Brys a'r Fetron, ni allent roi sicrwydd inni fod yr amseroedd aros yn cael eu diweddarau'n gyson bob awr. Dywedwyd wrthym fod amseroedd aros yn cael eu diweddarau rhwng bob awr a bob dwy awr ar hyn o bryd a bod yr angen i sicrhau eu bod yn cael eu diweddarau bob awr wedi'i drafod mewn cyfarfod diweddar o'r rheolwyr. Rydym yn argymhell y dylid cynnal archwiliad er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a bod cleifion yn cael gwybodaeth gywir am amseroedd aros bob awr.
- Dywedwyd wrthym fod yr holl arwyddion yn yr adran bellach yn ddwyieithog. Gwelsom dystiolaeth bod dadansoddiad bwllch o siaradwyr Cymraeg wedi'i gynnal o fewn gweithlu'r tîm amlddisgyblaethol a bod cyfle i ddysgu Cymraeg wedi cael ei gynnig a'i hyrwyddo i'r staff. Mae aelodau newydd o staff hefyd yn cael eu hannog i ymuno â hyfforddiant Cymraeg.
- Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn cael eu hatgoffa drwy lythyr ac e-bost, a'u hannog drwy sesiynau briffio diogelwch dyddiol, i sicrhau na chaiff byrfoddau eu defnyddio wrth gyfathrebu â chleifion ac ymwelwyr. Dywedwyd wrthym sut mae hyn yn cael ei fonitro drwy hapwiriadau dyddiol gan y Fetron a'u herio yn ôl yr angen a gwelsom dystiolaeth o hyn mewn dogfennaeth archwilio.
- Mewn perthynas â monitro amseroedd aros a rhoi strategaethau ar waith i wella llif cleifion drwy'r adran, dywedwyd wrthym, fel rhan o raglen wella'r bwrdd iechyd, Adeiladu Gwell Gofal, fod cyfansoddiad y gweithlu meddygol

wedi'i adolygu er mwyn cysoni cymysgedd sgiliau gwell â'r galw. Drafftiwyd achos busnes dros weithwyr meddygol ychwanegol i gael cymeradwyaeth weithredol ym mis Tachwedd 2019 a chynhaliwyd adolygiad allanol ar gyfer gweithlu'r Adran Achosion Brys ym mis Hydref, gyda'r bwriad o gynnwys yr adborth a roddwyd yn yr achos busnes diwygiedig.

Yn ystod ein cyfweiliadau â Phennaeth Nyrsio'r Adran Achosion Brys a'r Fetron, dywedwyd wrthym hefyd am gamau eraill a gymerwyd i wella llif cleifion drwy'r adran. Oherwydd y risg uchel o drosglwyddo haint sy'n gysylltiedig â COVID-19 a'r nifer mawr o gleifion sy'n dod i'r Adran Achosion Brys, mae nyrs ffrydio ar ddyletswydd wrth ddrws ffrynt yr adran er mwyn rheoli llif y cleifion. Eglurwyd wrthym, ers y cyfnod cyntaf pan oedd y pandemig ar ei waethaf, fod yr Adran Achosion Brys wedi cael cymorth gwych gan wasanaethau eraill o fewn y bwrdd iechyd a oedd yn cynnwys gwasanaethau pediatriig, offthalmoleg a gwasanaethau deintyddol. Dywedwyd wrthym eu bod wrthi'n gweithio gyda gwasanaethau cymunedol fel rhan o'u gwaith cynllunio ar gyfer y gaeaf ac yn ystyried sut y gallent ffrydio a chyfeirio cleifion yn effeithiol ac yn ddiogel at wasanaethau eraill, gan ddileu'r angen i gleifion aros yn ddiangen yn yr Adran Achosion Brys. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr Adran Achosion Brys yn ystyried ei bod yn hollbwysig cael cysylltiadau cryf â meddygon teulu a gofal sylfaenol. Eglurwyd wrthym fod rhai cleifion yn cael eu cyfeirio at yr uned mân anafiadau, pan fo'n briodol. Fodd bynnag, mae'r uned mân anafiadau wedi'i lleoli yn yr Wyddgrug ac nid yw bob amser yn bosibl i gleifion fynd yno oherwydd y pellter sydd rhwng yr uned ag Adran Achosion Brys Wreccsam os yw cleifion yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Dywedodd Pennaeth Nyrsio'r Adran Achosion Brys fod prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu â chydweithwyr ardal wedi gwella ers i Reolwr-Gyfarwyddwr newydd gael ei gyflogi i ymgymryd â'r rôl. Cynhelir cyfarfodydd wythnosol â chydweithwyr ardal/cymuned mewn ysbytai cymunedol er mwyn gwella llif cleifion.

Yn ystod ein cyfweiliadau, trafodwyd bod Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn dal i gofnodi oedi sylweddol yn yr ysbyty. Dywedwyd wrthym fod y flwyddyn hon yn arbennig o heriol oherwydd COVID-19 a'r angen i gleifion gadw pellter cymdeithasol. Dywedwyd wrthym am gamau a gymerwyd i wella ymateb y safle ac, er nad oeddent wedi cyrraedd pwynt lle yr hoffent fod, eu bod yn gweithio tuag at wella'r broses er mwyn sicrhau y gallant drosglwyddo cleifion yn ddiogel o fewn terfynau amser penodedig. Roedd y camau a oedd yn cael eu hystyried yn cynnwys agor canolfan gofal brys er mwyn cefnogi'r Adran Achosion Brys a thrin cleifion nad oes angen gofal brys arnynt o reidrwydd. Roedd y bwrdd iechyd hefyd yn ystyried menter gan Lywodraeth Cymru lle y bydd cleifion yn cael apwyntiadau yn hytrach nag aros a gorlenwi'r Adran Achosion Brys. At hynny, dywedwyd wrthym fod ysbyty Enfys lleol (ysbyty maes) wedi'i agor a'i fod yn derbyn cleifion i leihau'r pwysau ar ysbytai aciwt. Eglurwyd wrthym, oherwydd achosion o COVID-19 a drosglwyddwyd yn yr ysbyty, fod rhai gwelyau ysbyty wedi cael eu cau, gan gynyddu'r pwysau ar lif cleifion drwy'r Adran Achosion Brys. Dywedwyd wrthym fod y mentrau hyn i wella llif cleifion drwy'r Adran

Achosion Brys yn cael eu dwyn ynghyd cyn dechrau pwysau'r gaeaf fel y byddai'r cleifion yn gweld y budd a'r gwahaniaeth yn y gofal a oedd yn cael ei ddarparu. At hynny, dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nyrsys ychwanegol ym mis Mawrth 2021 er mwyn cynyddu nifer y staff. Dywedwyd wrthym hefyd fod uwchymarferydd nyrsio wedi'i gyflogi yn yr Adran Achosion Brys ers mis Awst 2020 sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar y tîm a llwybrau cleifion.

Yn ystod ein cyfweiliadau, edrychwyd hefyd ar y ffordd y mae staff yr Adran Achosion Brys yn mynd ati i ystyried amseroedd aros y tu allan mewn ambiwlansiau a'r angen i ddod â'r cleifion hyn i mewn i'r adran cyn gynted â phosibl. Dywedwyd wrthym fod y staff yn gweithio i drosglwyddo cleifion, eu hasesu a'u brysbennu cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt gyrraedd mewn ambiwlans. Dywedwyd wrthym fod y staff yn gwybod sut i uwchgyfeirio pryderon yn gyflym a bod angen lle arnynt i drosglwyddo cleifion mewn ymgynghoriad â meddyg ymgynghorol. Yn ystod ein cyfweiliadau, trafodwyd a oedd cynnal profion COVID-19 ar gleifion cyn iddynt gael eu symud ymlaen i ardaloedd eraill yn creu problemau o ran llif cleifion. Dywedwyd wrthym ei bod yn anodd i ddechrau ond bod y broses wedi'i symleiddio'n ddiweddar a bod profion bellach yn cael eu casglu gan yr Adran Achosion Brys a'u cymryd i ffwrdd i'w profi. Dywedwyd wrthym fod canlyniadau profion yn dod yn ôl ar wahanol adegau o'r dydd a bod y staff yn gwybod pryd mae'n ddiogel i gleifion gael eu symud. Dywedwyd wrthym fod y safle wedi buddsoddi mewn podiau er mwyn sicrhau bod taith y claf yn ddiogel ac yn amserol. Mae'r Adran Achosion Brys bellach wedi'i threfnu'n ystafelloedd sengl er mwyn sicrhau cyn lleied o gyswllt â phosib rhwng y cleifion tra byddant yn aros am ganlyniadau swabiau.

Trafodwyd hefyd achos lle roedd claf wedi dod i'r Adran Achosion Brys gyda'i blentyn a phenderfynu gadael am nad oedd yn teimlo'n ddiogel am na allai gadw pellter cymdeithasol. Eglurwyd wrthym fod cadw pellter cymdeithasol yn yr ardal aros yn destun pryder penodol am fod capasiti yn gyfyngedig oherwydd COVID-19. Dim ond 18 o gleifion a all fod yn yr ystafell aros ar yr un pryd. Dywedwyd wrthym fod gweithdrefn gweithredu safonol yn cael ei datblygu er mwyn ystyried sut y gellir cadw cleifion yn ddiogel yn yr ardal aros. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. Dywedodd Pennaeth Nyrsio'r Adran Achosion Brys eu bod yn ymwybodol o'r anawsterau a all waethygu gyda phwysau'r gaeaf a'u bod ystyried y trefniant a sut i sicrhau bod cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel ar hyn o bryd. Dywedwyd wrthym fod lle yn ardal aros y cleifion allanol yn cael ei ddefnyddio ar ôl 5pm yn ystod yr wythnos ac ar y penwythnos.

Er ein bod yn cydnabod y gwelliannau a'r ymdrechion a wnaed i wella llif cleifion drwy'r adran, yn enwedig yn ystod cyfnod heriol iawn oherwydd y pandemig, rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd barhau i fonitro amseroedd aros a rhoi'r strategaethau a ddisgrifiwyd uchod ar waith ac ystyried strategaethau ychwanegol fel mater o frys er mwyn gwella llif

cleifion a diogelwch cleifion o ran cadw pellter cymdeithasol ym mhob rhan o'r adran.

- Dywedwyd wrthym, ym mis Hydref 2020, fod dogfennaeth nyrsio'r Adran Achosion Brys wedi'i diweddarau er mwyn sicrhau bod gan bob claf gynllun gofal unigol. Dywedwyd wrthym fod y Fetron yn monitro cydymffurfiaeth ac ansawdd cynlluniau gofal bob wythnos a gwelsom dystiolaeth ddogfennol o hyn.
- Gwnaethom ddarllen dogfennaeth a oedd yn dangos bod metronau'r Adran Achosion Brys wedi cael hyfforddiant llofnodwyr DoLS a'u bod yn gallu cynnal asesiadau DoLS. Roedd y Tîm Diogelu hefyd wedi cynnal sioeau teithiol yn yr Adran Achosion Brys gan ganolbwyntio ar drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn ystod yr wythnos ymwybyddiaeth o ddiogelu. Darparwyd addysg bellach i staff yr Adran Achosion Brys yn 2019 a chafodd uwch-staff nyrsio eu hyfforddi a'u haddysgu i asesu galluedd meddyliol cleifion wrth eu derbyn i'r adran yn ôl yr angen. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant iechyd meddwl ychwanegol wedi'i ddarparu ym mis Mehefin 2020. Roedd yr hyfforddiant hwn yn dal i gael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod uwch aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol yn cael eu hyfforddi i asesu galluedd meddyliol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yn ystod ein harolygiad ym mis Awst 2019, nodwyd materion yn ymwneud â darparu gofal diogel ac effeithiol a oedd yn cynnwys methu â rhoi band arddwrn adnabod i gleifion ar gam cynnar yn eu llwybr gofal, yr angen i sicrhau bod cyffuriau a reolir yn cael eu harchwilio bob dydd a'r ffaith nad oedd trolïau dadebru yn cael eu harchwilio'n rheolaidd yn unol â'r polisi.

Yn ystod y gwiriad ansawdd dilynol, roedd yn gadarnhaol gweld bod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno pob un o'r gwelliannau a restrwyd yn y sicrwydd uniongyrchol a'r cynllun gwella yn dilyn yr arolygiad diwethaf ac wedi parhau i'w gweithredu. Fodd bynnag, roedd angen gwneud gwelliannau pellach a nodir yn yr adran nesaf o'r adroddiad a'r cynllun gwella ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Y sicrwydd uniongyrchol yn ymwneud â darparu gofal diogel ac effeithiol yr oedd angen ei gael yn ystod yr arolygiad diwethaf

Roedd y meysydd i'w gwella ar unwaith a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf fel a ganlyn:

- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod y cleifion sy'n aros ar droliau yn y coridor yn cael gofal priodol ac amserol.

-
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod matresi lleddfu pwysau addas ar gael yn hawdd i'w defnyddio ar droliâu yn yr Adran Achosion Brys.
 - Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod y cleifion yn cael bandiau arddwrn adnabod ar gam cynnar o'u llwybr gofal yn yr Adran Achosion Brys.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Roeddem yn falch o weld bod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno pob un o'r gwelliannau a restrwyd yn ei gynllun gweithredu yn dilyn yr arolygiad diwethaf.

- Yn dilyn yr arolygiad ym mis Awst 2019, roedd y bwrdd iechyd wedi cymryd nifer o gamau er mwyn sicrhau bod y cleifion a oedd yn aros ar droliâu yn y coridor yn cael gofal priodol ac amserol. Roedd hyn yn cynnwys cwblhau asesiad risg ffurfiol ar ddefnyddio'r coridor ar gyfer pob claf a datblygu Gweithdrefn Gweithredu Safonol (SOP) a'i rhoi ar waith i sicrhau bod proses uwchgyfeirio glir ar gyfer pob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod gofal priodol ac amserol yn cael ei ddarparu i'r cleifion. Fodd bynnag, yn ystod ein trafodaethau â Phennaeth Nyrsio'r Adran Achosion Brys a'r Fetron, dywedwyd wrthym nad yw'r coridor yn cael ei ddefnyddio mwyach ar gyfer cleifion oherwydd y risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Dywedwyd wrthym, er bod y risg hon wedi'i thynnu oddi ar gofrestr risg y bwrdd iechyd, y caiff ei hailystyried yn y dyfodol.
- Yn ystod ein trafodaethau, dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wedi buddsoddi mewn matresi lleddfu pwysau hybrid sydd bellach yn cael eu defnyddio yn yr Adran Achosion Brys. Dywedwyd wrthym hefyd fod camau ychwanegol wedi'u cymryd a oedd yn cynnwys pwysleisio i'r staff pa mor bwysig yw cynnal archwiliadau croen priodol pan gaiff claf ei dderbyn i'r adran, ac yn ôl yr angen.
- Mewn perthynas â'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael bandiau arddwrn adnabod ar gam cynnar yn eu llwybr gofal yn yr Adran Achosion Brys, dywedwyd wrthym fod peiriannau argraffu electronig wedi'u gosod yn yr ardaloedd brysbennu, anafiadau mawr a dadebru er mwyn rhoi bandiau arddwrn adnabod i'r cleifion. Cynhelir yr archwiliad wythnosol er mwyn cael sicrwydd o ran cydymffurfiaeth. Gwnaethom edrych ar y ddogfen archwilio o 12 Awst 2020 a 21 Hydref 2020 a oedd yn dangos cydymffurfiaeth lawn â'r gofyniad i roi bandiau arddwrn i'r cleifion.

Gwelliannau yr oedd eu hangen yn dilyn yr arolygiad diwethaf

- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ystafell gawod yn yr Uned Asesu Meddygol yn cael ei hadnewyddu.

-
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau na chaiff eitemau o fwyd eu storio gyda chyfarpar clinigol yn yr Uned Asesu Meddygol na'r Uned Penderfyniadau Clinigol.
 - Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff asesiadau risg ar gyfer mannau pwysu eu cynnal fel mater o drefn a bod matresi lleddfu pwysau addas ar gael i'w defnyddio ar droliâu.
 - Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau o'r risg o gwmpo yn cael eu cynnal yn amserol.
 - Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff anghenion bwyta ac yfed cleifion eu hasesu'n gyson ac y caiff siartiau monitro maeth a hydradu eu cwblhau fel sy'n ofynnol.
 - Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cyffuriau a reolir eu gwirio'n ddyddiol.
 - Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff yn llofnodi cofrestrau cyffuriau a reolir ar adeg gwirio a/neu roi meddyginiaeth.
 - Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau mai dim ond pan gaiff ei ragnodi'r ffurfiol y rhoddir ocsigen i gleifion.
 - Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod drws yr ardal bediatrig wedi'i gloi pan nad oes unrhyw staff yn bresennol.
 - Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y troliâu dadebru eu harchwilio'n rheolaidd yn unol â'r polisi.
 - Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cleifion eu hasesu i weld a oes angen cyffuriau lleddfu poen arnynt ac y caiff effeithiolrwydd y cyffuriau lleddfu poen ei adolygu a'i ddogfennu.
 - Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod troliâu sy'n cynnwys nodiadau gofal cleifion wedi'u cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.
 - Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod sgriniau cyfrifiaduron wedi'u cloi pan nad oes unrhyw staff yn bresennol.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

- Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod yr ystafell gawod yn yr Uned Asesu Meddygol wedi'i hadnewyddu ar ddechrau 2020.
- Dywedwyd wrthym fod camau unioni wedi'u cymryd ar unwaith er mwyn sicrhau bod eitemau o fwyd yn cael eu storio yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd a bod y staff cadw tŷ wedi cael eu hatgoffa i beidio â storio eitemau o fwyd gyda chyfarpar clinigol yn yr Uned Asesu Meddygol a'r Uned Penderfyniadau

Clinigol. Roedd hyn yn cael ei fonitro drwy archwiliad wythnosol a oedd yn cael ei gynnal gan y staff cadw tŷ. Gwnaethom edrych ar archwiliad dyddiedig Tachwedd 2019 a gadarnhaodd fod hyn wedi'i fonitro. Fodd bynnag, gwnaethom ofyn am dystiolaeth o archwiliad mwy diweddar er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei fonitro'n barhaus.

- Dywedwyd wrthym fod gan yr Adran Achosion Brys droliâu cleifion newydd a'i bod wedi cael matresi hybrid a oedd bellach yn cael eu defnyddio. Ceir rhagor o fanylion am hyn uchod, yn adran 'profiad y claf' o'r adroddiad hwn.
- Yn dilyn ein harolygiad ym mis Awst 2019, gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi'u hatgoffa i sicrhau bod yr asesiad o'r risg o gwmpo yn cael ei gwblhau yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym, erbyn mis Hydref 2020, fod dogfennaeth newydd i'r Adran Achosion Brys wedi cael ei chyflwyno a'i hymgorffori'n effeithiol er mwyn sicrhau bod cynlluniau gweithredu unigol ar waith ar gyfer pob claf er mwyn atal cwmpadau. Gwelsom dystiolaeth bod hyn yn cael ei fonitro fel rhan o archwiliad metron yr Adran Achosion Brys a bod cydymffurfiaeth lawn wedi'i gofnodi rhwng 12 Awst a 30 Medi 2020.
- Dywedwyd wrthym fod statws maeth pob claf yn cael ei fonitro gan weithwyr cymorth gofal iechyd a nyrsys cyffredinol cofrestredig er mwyn sicrhau bod anghenion maeth y cleifion yn cael eu diwallu a bod y cam gweithredu yn cael ei fonitro drwy archwiliadau metron yr Adran Achosion Brys. Roedd dystiolaeth yn nogfen archwilio'r Fetron yn dangos bod cydymffurfiaeth lawn rhwng 12 Awst a 30 Medi 2020.
- Dywedwyd wrthym fod staff dynodedig yn cael eu neilltuo i wirio Cyffuriau a Reolir yn ddyddiol er mwyn sicrhau bod person cyfrifol amlwg. Roedd hyn yn cael ei fonitro drwy archwiliad wythnosol y Fetron a gwelsom dystiolaeth o lefelau uchel o gydymffurfiaeth.
- Dywedwyd wrthym, yn ystod ein harolygiad ym mis Awst 2019, fod pob aelod o'r staff wedi'u hatgoffa i sicrhau bod y cofrestrau cyffuriau a reolir yn cael eu llofnodi yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd. Mae hyn yn cael ei fonitro gan y Fetron ac mae Fferyllydd yr adran hefyd yn darparu archwiliad annibynnol. Gwelsom dystiolaeth o archwiliad o gyffuriau a reolir a gynhaliwyd gan yr Adran Fferylliaeth ar 16 Hydref 2020. Roedd yn dangos nad oedd pob maes wedi cael ei gofnodi, ei lofnodi a'i chwblhau. Fodd bynnag, nid oedd yn dangos pa gamau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion hyn. Gwnaethom ofyn i'r bwrdd iechyd ddarparu dystiolaeth ychwanegol i ddangos pa gynllun gweithredu y cytunwyd arno gan y Fetron o ganlyniad i'r diffyg cydymffurfiaeth a'r ffordd y mae'r camau gweithredu hynny wedi cael eu rhoi ar waith.
- Gwelsom dystiolaeth fod e-bost atgoffa wedi'i ddosbarthu i bob aelod o staff meddygol yr Adran Achosion Brys er mwyn sicrhau bod unrhyw ocsigen sy'n cael ei roi i gleifion yn cael ei ragnodi cyn gynted â phosibl. Dywedwyd wrthym hefyd y bydd dogfennaeth feddygol yr Adran Achosion Brys yn cael ei

hadolygu er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu hatgoffa i roi ocsigen i gleifion ac y ceir sicrwydd pellach drwy archwiliad ocsigen. Gwnaethom edrych ar archwiliad wythnosol y Fetron a gweld bod achlysuron pan nad oedd ocsigen wedi'i ragnodi i gleifion. Digwyddodd hyn ar 19 Awst (dau glaf), 17 Medi (dau glaf) a 30 Medi (tri chlaf). Gwnaethom ofyn i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth o gynllun gweithredu a'r camau a gymerwyd yn dilyn yr archwiliad.

- Dywedwyd wrthym fod mynediad drwy'r drws i'r ardal bediatrig yn yr Adran Achosion Brys bellach wedi'i gyfyngu a bod y drws bob amser dan glo.
- Dywedwyd wrthym, yn dilyn arolygiad AGIC ym mis Awst 2019, fod y cynllun gweithredu wedi'i rannu â phob uwch-nyrs er mwyn sicrhau bod y trolïau dadebru yn cael eu harchwilio'n rheolaidd yn unol â'r polisi. Roedd staff dynodedig yn cael eu neilltuo'n ddyddiol er mwyn sicrhau bod person cyfrifol amlwg. Mae hyn yn cael ei fonitro bob wythnos gan y fetron. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod archwiliad wedi'i gwblhau gan yr Adran Ddadebru ym mis Mehefin 2020 a nododd welliant amlwg ac atebolrwydd dyddiol am archwilio'r trolïau dadebru gan uwch-nyrsys. Gwelsom dystiolaeth o archwiliadau dyddiol a gynhaliwyd drwy gydol mis Medi a mis Hydref 2020.
- Dywedwyd wrthym fod nyrsys brysbennu'r Adran Achosion Brys wedi'u hatgoffa o bwysigrwydd asesu pob claf i weld a yw mewn poen pan gaiff ei brysbennu. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi'u hatgoffa am hyn mewn llythyr dyddiedig mis Tachwedd 2019. At hynny, dywedwyd wrthym fod gweithiwr gofal iechyd lles wedi'i neilltuo i ardal aros y cleifion er mwyn sicrhau y caiff effeithiolrwydd meddyginiaeth lleddfdu poen ei asesu a'i ddogfennu ar Symphony (cofnod electronig cleifion) a/neu ar nodiadau clinigol cleifion ac uwchgyfeirio pryderon at y nyrs gofrestredig. Mae hyn yn cael ei fonitro drwy archwiliad wythnosol y fetron. Gwelsom hefyd ddogfennaeth a oedd yn dangos bod gwiriadau lles yn cael eu cwblhau ar gleifion yn ystafell aros yr Adran Achosion Brys bob dwy awr. Roedd y ddogfen a welwyd yn dangos bod pob gwiriad wedi'i gwblhau ar 31 Hydref 2020.
- Dywedwyd wrthym fod Pennaeth Nyrsio'r Adran Achosion Brys wedi ystyried opsiynau amgen yn lle storio nodiadau cleifion y tu allan i ardaloedd cyhoeddus ac ardaloedd y cleifion. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ateb addas wedi'i nodi oherwydd cyfyngiadau seilwaith. Roedd pob aelod o'r staff wedi'u hatgoffa i sicrhau bod nodiadau cleifion yn cael eu cloi yn y trolïau nodiadau cleifion. Dywedwyd wrthym fod hyn yn cael ei fonitro drwy hapwiriadau rheolaidd gan yr uwch-reolwyr.
- Gwelsom dystiolaeth ar ffurf neges e-bost dyddiedig 27 Tachwedd 2019 a anfonwyd at staff yr Adran Achosion Brys er mwyn eu hatgoffa o'r rhwymedigaeth i sicrhau bod data a gwybodaeth bersonol cleifion yn cael eu diogelu, gan gynnwys data a gwybodaeth a ddelir ar lwyfannau megis Symphony a phorth y bwrdd iechyd a all fod yn weladwy ar sgriniau

cyfrifiaduron. Roedd y staff wedi'u hatgoffa i sicrhau bod sgriniau cyfrifiaduron wedi'u cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Mae'r bwrdd iechyd wedi darparu esboniad ysgrifenedig o'r ffordd y mae'n sicrhau bod y risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel yn ystod pandemig COVID-19. Ni chafodd hyn ei ystyried ymhellach yn ystod y cyfweiliadau oherwydd cyfyngiadau amser. Dywedodd y bwrdd iechyd fel a ganlyn:

Mae rheoli heintiau yn effeithiol yn gwella ansawdd gofal a chanlyniadau cleifion. Mae mesurau atal heintiau safonol yn hanfodol er mwyn sicrhau na fydd cleifion yn cael haint nosocomaidd. Cyn pandemig COVID-19, roedd y mesurau a roddwyd ar waith yn cynnwys sicrhau bod gan bob aelod o'r staff rywfaint o ddealltwriaeth o arferion clinigol mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau. Roedd hyn yn cynnwys gweithdrefnau clinigol sy'n defnyddio Techneg Ddi-gyffwrdd Aseptig, safonau uchel o ran hylendid dwylo, canfod clefydau yn gynnar a rhagofalon ynysu a rheoli gwastraff. Dywedwyd wrthym fod arferion yn cael eu monitro a'u harchwilio'n rheolaidd ac yr ymdrinnir ag unrhyw bryderon ar unwaith. Ers dechrau pandemig COVID-19, dywedodd y bwrdd iechyd ei fod wedi newid y ffordd y mae'n gweithredu yn yr Adran Achosion Brys yn y ffyrdd canlynol:

- Cafodd yr ardal ddadebru ei throï'n giwbiclau er mwyn lleihau risgiau sy'n gysylltiedig â Gweithdrefnau Cynhyrchu Aerosol mewn lle cyfyng. Mae gan bob aelod o staff yr Adran Achosion Brys ac unrhyw staff sy'n ymweld ddealltwriaeth glir o'r broses ar gyfer Gweithdrefnau Cynhyrchu Aerosol.
- Proses ffrydio cleifion wrth y drws ffrynt i ffwrdd oddi wrth yr Adran Achosion Brys neu i lifoedd cleifion a staff COCH a GWYRDD wedi'i hategu gan weithdrefnau gweithredu safonol. Newidiodd yr adran i lifoedd Positif/Symptomatig ac Asymptomatig ym mis Hydref 2020, wedi'u hategu gan sgriniau symudol ac, yn fwy diweddar, ardaloedd/ystafelloedd trin cleifion unigol sydd wedi'u darparu ym mhob rhan o'r adran (Dechreuodd ar 3 Tachwedd 2020).
- Cysylltiadau â'r tîm rheoli heintiau er mwyn llywio arferion clinigol yn unol â chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Caiff cleifion eu sgrinio pan fyddant yn cyrraedd yr adran.
- Y gallu i ffrydio cleifion yn syth i'r Adrannau Trawma ac Orthopedeg a Phediatrieg a leihaodd nifer y cleifion yn yr Adran Achosion Brys ac a gynigiodd fwy o oriau'r gweithlu.
- Mwy o ddefnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE) a ddefnyddir gan staff a chleifion. Cyfleusterau storio ychwanegol ar gyfer stoc a chyfarpar.
- Rhoddir gwybod am y broses o ddatblygu sbardunau gorlenwi ym mhob cyfarfod a gynhelir i drafod argaeledd gwelyau yn yr ysbyty.
- Asesu a brysbenno llif cleifion drwy'r adran.
- Y defnydd o ystafelloedd ynysu ar gyfer cleifion sydd wedi cael canlyniadau positif a chleifion sy'n dangos symptomau.
- Ystafell sydd wedi'i dynodi'n benodol ar gyfer gwisgo a diosg cyfarpar diogelu personol.
- Canllawiau ar reoli cleifion sydd wedi cael trawiad ar y galon (yn unol â chanllawiau Cynnal Bywyd Uwch)

-
- Sicrhau bod prawf ffitio³ wedi'i gynnal ar bob aelod o'r staff.

Yn ystod ein cyfweiliadau, trafodwyd rheoli heintiau yn ardal aros yr Adran Achosion Brys. Dywedwyd wrthym fod staff bob amser yn bresennol yn yr ardal. Fodd bynnag, gwnaethom gydnabod bod yr ardal aros yn ardal gyhoeddus ac y gall yr amgylchedd newid mewn cyfnod byr iawn o amser. Eglurwyd wrthym nad yw'r ardal aros mewn cyflwr priodol fel y dylai fod a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r posibilrwydd o osod seddi newydd a rhanwyr yn yr ardal aros er mwyn sicrhau bod cleifion yn gallu cadw pellter cymdeithasol yn ddiogel. Dywedwyd wrthym hefyd fod gwiriadau lles cleifion yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac, felly, y byddai archwiliad gweledol o'r ardal yn cael ei gynnal yn rheolaidd. Dywedwyd wrthym fod yr adran wedi cysylltu â chymorth domestig a bod y posibilrwydd o gynyddu nifer y staff cyflenwi domestig wedi'i ystyried. Dywedwyd wrthym hefyd fod camerâu yn yr ardal sy'n cael eu monitro gan y nyrs â chyfrifoldeb.

Gwnaethom drafod pryder a oedd wedi'i fynegi i AGIC ynghylch mater yn ymwneud â rheoli heintiau yn ardal aros yr Adran Achosion Brys gyda Phennaeth Nyrsio'r Adran Achosion Brys a'r Fetron. Roedd hyn yn cynnwys gwaed ar y llawr, powlenni chwydu yn cael eu gadael yn yr ardal aros a meddyginiaeth yn cael ei gadael heb ei goruchwyllo. Rydym yn argymhell y dylid cyflwyno proses ar unwaith er mwyn sicrhau bod yr ardal aros yn cael ei monitro'n rheolaidd i wneud yn siwr bod yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw a'r reoli i safon sy'n hwyluso'r gwaith o atal a rheoli heintiau ac yn lleihau'r risg o haint.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd yn gadarnhaol clywed am daith tîm arwain yr Adran Achosion Brys a'r ymdrechion a wnaed i wella'r diwylliant a'r trefniadau llywodraethu yn yr adran, yn arbennig o ystyried yr heriau ychwanegol y mae'n eu hwynebu, sy'n gysylltiedig â phandemig byd-eang COVID-19.

Gwelliannau yr oedd eu hangen yn dilyn yr arolygiad diwethaf

- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro lefelau staffio a chymysgedd sgiliau'r staff yn yr adran
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod hyfforddiant ar gael i bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r cymwyseddau cywir.
- Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrrio ar rai o'r ymatebion llai ffafriol gan y staff mewn ymateb i rai o gwestiynau holiadur AGIC a chymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd.

³ Mae'r prawf ffitio yn broses drylwyr sy'n sicrhau bod gweithwyr iechyd yn gwisgo masg o'r maint cywir, nad yw'n gollwng.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

- Yn ystod trafodaethau â Phennaeth Nyrsio'r Adran Achosion Brys a'r Fetron, nodwyd bod arolygiad AGIC yn 2019 yn gadarnhaol ac yn gefnogol a'i fod wedi peri i'r adran adolygu'r staff a'r diwylliant yn yr adran. Cawsom wybod am nifer o newidiadau a oedd yn cynnwys diwrnodau datblygu ar gyfer rolau Band 7 a chynnig cyfleoedd i aelodau eraill o staff yr Adran Achosion Brys i gyflawni rolau arweinwyr sifft. Rôl yr arweinydd sifft yn yr Adran Achosion Brys yw gweithio ochr yn ochr â meddygon ymgynghorol a sicrhau y gofelir am y staff. Dywedwyd wrthym fod y newidiadau hyn wedi helpu i newid y diwylliant a gwella gweithgarwch ymgysylltu â staff sy'n sail i ofal cleifion ardderchog. At hynny, roedd cyfleoedd wedi codi i ymgymryd â rolau Band 6 a arweiniodd at ddyrchafu staff Band 5. Roedd hyn wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol am eu bod wedi dod yn arweinwyr clinigol yn yr adran, gan sicrhau bod cleifion yn cael eu diogelu ac yn derbyn gofal o ansawdd uchel a galluogi staff Band 7 i weithio'n weithredol. Dywedwyd wrthym fod y newidiadau wedi gwella diwylliant staff rheng flaen. Dywedwyd wrthym hefyd fod adolygiad o gymysgedd sgiliau'r staff wedi helpu i newid agwedd y staff. Yn ystod arolygiad blaenorol AGIC, trafododd Pennaeth Nyrsio'r Adran Achosion Brys y cymysgedd o staff a nifer y swyddi Band 5 gwag yn yr adran gyda'r prif arolygydd. Yn dilyn adolygiad o'r cymysgedd o sgiliau, mae saith aelod o staff Band 4 cyfwerth ag amser llawn bellach, sy'n golygu bod yr adran yn llawer llai dibynnol ar staff asiantaeth. Dywedwyd wrthym fod staff Band 4 bellach yn cael y cymorth cywir gan gymheiriaid. Dywedwyd wrthym hefyd fod rôl Nyrs Datblygu Ymarfer wedi'i chyflwyno sy'n canolbwyntio ar ddatblygu staff yn yr adran ac sydd wedi cael effaith gadarnhaol.

Eglurwyd wrthym fod y Fetron wedi bod yn ei rôl ers ychydig dros flwyddyn. Dywedodd ei bod yn cael ei hysgogi'n glinigol ac roedd yn cynnig cyfoeth o brofiad clinigol. Ers bod yn y rôl, dywedodd y Fetron ei bod wedi gweithio'n galed i feithrin cydberthnasau da â'r staff ar bob lefel drwy fabwysiadu dull gweithredu cyson, bod yn bresennol yn aml ac yn weladwy iawn yn yr adran a gweithredu polisi drws agored. At hynny, dywedodd y Fetron ei bod yn ailddatgan i'r staff drwy'r amser yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni drwy sesiynau briffio ar ddiogelwch a chyfathrebu da a chyfleoedd i'r staff ddatblygu. Mae hyn wedi arwain at feithrin cydberthnasau gwaith da. Gwnaethom ofyn sut roedd hyn wedi dylanwadu ar ofal a thriniaeth y cleifion ac eglurwyd wrthym fod gwelliant ym mhrofiad y claf wedi'i nodi yn ystod yr amser a dreulwyd yn yr adran. Roedd hyn wedi'i ddangos drwy lythyrau, cardiau a rhoddion gan gleifion i ddangos eu gwerthfawrogiad. Dywedwyd wrthym fod nifer y cwynion wedi gostwng hefyd.

Eglurodd y Fetron i ni fod y ffordd y maent yn ymateb i ddigwyddiadau clinigol yn wahanol iawn bellach a'u bod yn hyderus, pan fydd claf yn mynd i mewn i'r adran ddadebru, y caiff ofal clinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Roedd y staff hefyd yn fwy ymwybodol o sepsis. Dywedwyd wrthym fod nyrs ffrydio yn cael ei rhoi fel pwynt cyswllt cynnar wrth ddrws ffrynt yr adran a bod y staff wedi

croesawu'r newid. Dywedwyd wrthym fod hon yn enghraifft gadarnhaol iawn o newid diwylliannol yn yr adran gyda'r staff yn ymgysylltu mwy ac yn uwchgyfeirio materion yn ymwneud â gofal clinigol a diogelwch yn amlach ac yn cael eu clywed a'u cefnogi.

- Dywedwyd wrthym fod y gyfradd arfarnu a'r gyfradd cydymffurfio o ran hyfforddiant gorfodol wedi gwella ers ein harolygiad yn 2019 sy'n helpu i sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r cymwyseddau cywir. Gwelsom hefyd dystiolaeth a oedd yn dangos bod y ffigurau cydymffurfiaeth wedi gwella.
- Yn ystod ein cyfweiliadau â Phennaeth Nyrsio'r Adran a'r Fetron, dywedwyd wrthym, ers yr arolwg staff diwethaf, fod nifer o newidiadau wedi'u rhoi ar waith yn yr Adran Achosion Brys. Roeddent wedi gwrandao ar y staff a gweithredu ar yr hyn y gellid ei wneud i wneud gwelliannau ar gyfer y staff. Eglurwyd wrthym fod nifer o gamau cadarnhaol eisoes wedi'u cymryd a bod yr adran ar y trywydd iawn tuag at gyrraedd y man lle yr hoffai fod. Dywedwyd wrthym fod y staff o'r farn nad oedd ganddynt ddeunyddiau, cyflenwad na chyfarpar digonol bob amser i wneud eu gwaith. O ganlyniad, roedd cyfarpar a chyflenwadau clinigol ychwanegol wedi'u prynu. Roedd y staff hefyd yn teimlo nad ydynt yn cael gwybod bob tro am gamgymeriadau diweddar a chamgymeriadau a fu bron â digwydd a sut i'w hatal rhag digwydd. Dywedwyd wrthym fod bwrdd y Datix (y system cofnodi digwyddiadau) yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd o ran y themâu a'r tueddiadau a gwelsom ddogfen a oedd yn dangos bod y themâu yn cael eu rhannu drwy sesiwn friffio ddyddiol ar ddiogelwch. Dywedwyd wrthym fod bwrdd 'gratix' hefyd wedi'i gyflwyno er mwyn sicrhau bod yr arfer da hefyd yn cael ei ddathlu. Dywedwyd wrthym hefyd fod uwchgynhadledd gofal iechyd brys wedi'i chyflwyno er mwyn sicrhau bod staff yn cael gwybod am y camgymeriadau a fu bron â digwydd a'r mesurau ataliol a sicrhau dysgu effeithiol o adroddiadau Datix.

Dywedwyd wrthym fod arolwg staff arall wedi'i gynnal yn ddiweddar a bod data cymharol o'r arolwg staff a gynhaliwyd yn 2019 yn dangos newid gwirioneddol yn agwedd y staff tuag at yr adran a newid diwylliannol gyda'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Dywedwyd wrthym fod yr ymatebion yn dangos bod y staff bellach yn canolbwyntio ar ddiogelwch ac ansawdd yn hytrach na thargedau. Dywedwyd wrthym yr ystyrir bod cynnydd da yn cael ei wneud o ran mabwysiadu dull tîm amlddisgyblaethol yn yr adran a bod rheolwyr gweithredol yn gweithio tuag at nod cyffredin. Gwnaethom edrych ar grynodedb gweithredol o'r arolwg staff a gynhaliwyd yn yr Adran Achosion Brys yn ystod mis Medi a mis Hydref 2020. Roedd yn dangos mai'r gwelliannau mwyaf a wnaed ers yr arolwg blaenorol oedd bod y staff bellach yn edrych ymlaen at ddod i'r gwaith, yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi â phwysau gwaith yn well, yn credu mai diogelwch y cleifion yw'r brif flaenoriaeth yn yr Adran Achosion Brys a'u bod yn argymhell yr Adran Achosion Brys fel gweithle. Roedd yr ymatebion mwyaf cadarnhaol ar gyfer 2020 yn ymwneud â'r ffaith bod y staff yn teimlo'n fwy brwdfrydig ynghylch eu gwaith a'u gallu i wneud gwelliannau. Roedd yr ymatebion lleiaf cadarnhaol ar gyfer 2020 yn ymwneud â'r ffordd roedd staff yn teimlo bod cydweithwyr yn ymdopi ag effeithiau pwysau gwaith ac a oedd gan

y staff yr adnoddau a'r cyfarpar sydd eu hangen i gyflawni eu rôl. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y bwrdd iechyd yn ystyried sut i wella'r meysydd lle y cofnodwyd y lefelau isaf o foddhad ymhlith y staff drwy gael rhagor o wybodaeth gan y staff ac y byddai'r camau a gymerwyd o ganlyniad yn cael eu darparu gan ddefnyddio dull 'dywedoch chi - gwnaethom ni' drwy neilltuo bwrdd i'w harddangos.

Dywedwyd wrthym hefyd fod archwiliad Achredu Wardiau mewnol wedi'i gwblhau'n ddiweddar gyda chanlyniadau cadarnhaol. Gwelsom yr adroddiad adborth dyddiedig 23 Tachwedd 2020 a oedd yn ategu ein trafodaethau â Phennaeth Nyrsio'r Adran Achosion Brys a'r Fetron. Roedd yn gadarnhaol nodi, ar y cyfan, fod gwelliannau wedi'u gwneud ym mhob rhan o'r Adran Achosion Brys.

Trafodwyd hefyd y mesurau a oedd wedi'u cyflwyno er mwyn cael sicrwydd bod cleifion yn cael gofal diogel yn yr Adran Achosion Brys. Dywedwyd wrthym fod archwiliadau wythnosol yn cael eu cynnal gan y Fetron sy'n cynnwys dogfennau, bandiau arddwrn adnabod a sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rhoi fel y'i rhagnodwyd. At hynny, cynhelir hapwiriadau sy'n cynnwys cyffuriau a reolir a throlïau dadebru. Er mwyn i nyrsys Band 6 deimlo eu bod yn rhan o'r tîm arwain, dywedwyd wrthym eu bod yn gyfrifol am gynnal eu harchwiliad dyddiol eu hunain. Maent hefyd yn edrych ar feysydd tebyg i'r Fetron, ond maent hefyd yn edrych ar y gofal a roddir i gleifion dros gyfnodau o 24 awr ac yn sicrhau bod gofal a meddyginiaeth briodol wedi'u rhoi i gleifion a bod adolygiadau arbenigedd wedi'u cynnal. Eglurodd y Fetron fod archwiliadau hylendid dwylo wythnosol yn cael eu cynnal a bod y staff clinigol yn cydymffurfio â'r canllawiau ar gyfarpar diogelu personol. Mae'r staff yn cael eu datblygu ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac maent yn gweithio'n agos gyda'r Nyrs Datblygu Ymarfer ac yn sicrhau bod nyrsys yn cael cyfleoedd i ddatblygu lle y bo angen.

Beth nesaf?

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Maelor Wreccsam

Ward/Adran/Gwasanaeth: Gwiriad Ansawdd Dilydol o'r Adran Achosion Brys

Dyddiad y gweithgarwch: 10 a 26 Tachwedd 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amseroedd aros yn cael eu cyfleu'n gywir. Rydym yn argymhell y dylid cynnal archwiliad er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth gywir am amseroedd aros bob awr.	4.2 Gwybodaeth i gleifion	<p>Staff y dderbynfa i ddiweddarau amseroedd aros meddygon bob 2 awr yn yr ystafell aros ar y bwrdd wedi'i lamineiddio dynodedig.</p> <p>Ystyriwyd yr opsiwn i sgriniau 'ticker' arddangos amseroedd aros. Fodd bynnag, nid yw'r opsiwn hwn wedi bod yn un ymarferol oherwydd systemau TG cymhleth.</p> <p>Mae'r ceisiadau wedi'u cyflwyno ar gyfer y system llais fewnol, a</p>	Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth (yr Adran Achosion Brys)	31 Ionawr 2021

			<p>fydd yn sicrhau bod amseroedd aros byw yn cael eu cyhoeddi ar gyfer yr holl gleifion yn yr adran. Os caiff ei chymeradwyo, byddem yn gallu cyhoeddi amseroedd aros byw.</p> <p>Caiff cydymffurfiaeth o ran arddangos yr amser aros ei monitro drwy gynnal archwiliad rheolaidd.</p>		
2	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro amseroedd aros a rhoi'r strategaethau a ddisgrifir yn yr adroddiad ar y canfyddiadau ar waith ac ystyried strategaethau ychwanegol fel mater o frys er mwyn gwella llif cleifion a diogelwch cleifion o ran cadw pellter cymdeithasol ym mhob rhan o'r adran.</p>	5.1 Mynediad Amserol	<p>Caiff yr amseroedd aros eu monitro yn unol â cham(au) gweithredu'r gwasanaeth a nodwyd uchod.</p> <p>Mae'r Adran Achosion Brys wedi penodi 4 meddyg haen 4 parhaol a fydd yn dechrau yn eu swyddi ar ddechrau 2021 a bydd hyn yn lleihau ein dibyniaeth ar feddygon locwm asiantaeth gan ein galluogi i wneud penderfyniadau amserol i wella llif cleifion drwy'r Adran Achosion Brys.</p> <p>Mae'r Adran Achosion Brys wedi rhoi nifer o lwybrau ar waith er mwyn gwella llif cleifion a diogelwch cleifion o ran cadw pellter cymdeithasol ym mhob rhan o'r adran. Mae'r llwybrau</p>	Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth (yr Adran Achosion Brys)	31 Ionawr 2021

			<p>hyn fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Y Gwasanaeth Mân Anafiadau a gynhelir yn y Clinig Toriadau (Llun-Gwener 0900-1700) - Pediatreg (Atgyfeiriad uniongyrchol fesul achos 24/7) - Gynaecoleg (Atgyfeiriad uniongyrchol fesul achos 24/7) - SiCAT/Ffonio'n Gyntaf – (Ffrydio ac apwyntiad. 1300 a 1600) - Canolfan Gofal Sylfaenol Brys – (Llun-Gwener 0830 – 2100) <p>Mae Tîm Rheoli'r Adran Achosion Brys hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Atal Heintiau i ystyried y posibilrwydd o osod sgriniau Perspex yn yr ardal aros er mwyn sicrhau bod gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol ar waith bob amser.</p>		
3	Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth o archwiliadau diweddar a gynhaliwyd er mwyn sicrhau na chaiff eitemau o fwyd eu storio gyda chyfarpar clinigol yn yr Uned Asesu	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae'r Gwasanaeth Achredu Wardiau wedi cwblhau archwiliadau o'r ddwy uned yn	Y Fetron (yr Adran Achosion Brys)	Cwblhawyd

	Meddygol na'r Uned Penderfyniadau Clinigol.		<p>flaenorol ac ni nododd fod hyn yn broblem.</p> <p>Cymerwyd camau unioni ar unwaith er mwyn sicrhau bod eitemau o fwyd yn cael eu storio yn unol â'r polisi.</p> <p>Mae hapwiriadau yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, caiff archwiliadau mwy ffurfiol eu cwblhau yn y dyfodol er mwyn sicrhau y rhoddir sicrwydd pellach. Mae'r cam gweithredu uchod yn cael ei fonitro drwy archwiliadau misol gan y staff cadw tŷ.</p>		31 Ionawr 2021
4	Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth o gynllun gweithredu a roddwyd ar waith o ganlyniad i archwiliad o gyffuriau a reolir a gynhaliwyd gan yr Adran Fferylliaeth ar 16 Hydref 2020. Mae hefyd angen tystiolaeth o b'un a gafodd y cynllun gweithredu ei gwblhau.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	<p>Mae pob aelod o'r staff wedi cael eu hatgoffa i sicrhau bod y cofrestrau cyffuriau a reolir yn cael eu llofnodi yn unol â'r polisi, gan gynnwys staff Gofal Clinigol.</p> <p>Mae pob aelod o'r staff wedi'u hatgoffa i sicrhau, os bydd y dosau rhannol wedi'u rhoi, y dylid cofnodi'r swm a wastraffwyd ar gofrestrau cyffuriau a reolir (CD) yn rheolaidd.</p> <p>Caiff cydymffurfiaeth y camau</p>	<p>Y Fetron (yr Adran Achosion Brys)</p> <p>Y Fetron (yr Adran Achosion Brys)</p> <p>Y Fetron (yr</p>	<p>31 Ionawr 2021</p> <p>31 Ionawr 2021</p> <p>28</p>

			<p>gweithredu uchod ei monitro drwy gynllun gweithredu lleol. Caiff cydymffurfiaeth y cynllun gweithredu ei monitro gan archwiliadau'r Fetron a rhoddir gwybod amdani i'r Grŵp Llywodraethu Clinigol Lleol.</p> <p>At hynny, bydd Fferyllydd yr adran yn darparu archwiliad annibynnol er mwyn cael sicrwydd ychwanegol.</p>	<p>Adran Achosion Brys)</p> <p>Fferyllydd (Yr Adran Achosion Brys)</p>	<p>Chwefror 2021</p> <p>31 Mawrth 2021</p>
5	Rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu tystiolaeth o gynllun gweithredu a'r camau a gymerwyd yn dilyn archwiliad wythnosol gan y Fetron lle y nodwyd nad oedd ocsigen wedi'i roi i gleifion ar adegau.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	<p>Atgoffwyd pob aelod o'r staff i sicrhau bod yr ocsigen yn cael ei ragnodi cyn ei roi ac eithrio mewn achosion brys.</p> <p>Os caiff ocsigen ei roi mewn argyfwng, dylid ei ragnodi cyn gynted â phosibl.</p> <p>Caiff cydymffurfiaeth y camau gweithredu uchod ei monitro drwy gynllun gweithredu lleol. Rhoddir gwybod i'r Grŵp Llywodraethu Clinigol Lleol am gydymffurfiaeth y cynllun gweithredu bob mis nes cael sicrwydd bod y cynllun gweithredu yn cydymffurfio'n llawn.</p>	Arweinydd y Gwasanaeth Clinigol, yr Adran Achosion Brys	31 Ionawr 2021
6	Rhaid i'r bwrdd iechyd gyflwyno	2.4 Atal a Rheoli	Adolygu oriau domestig yr	Y Fetron (yr	8 Ionawr

<p>proses ar unwaith er mwyn sicrhau bod yr ardal aros yn cael ei monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw a'i reoli i safon sy'n hwyluso'r gwaith o atal a rheoli heintiau ac yn lleihau'r risg o haint.</p>	<p>Heintiau</p>	<p>Adran Achosion Brys i wneud yn siwr bod darpariaeth ddomestig effeithiol ar waith er mwyn sicrhau y caiff yr Ystafell Aros ei glanhau'n aml er mwyn lleihau'r risg o haint, yn enwedig y Tu Allan i Oriau (Gweithredu ar unwaith).</p>	Adran Achosion Brys)	2021
		<p>Cyflwyno proses fonitro reolaidd (bob 2 awr) er mwyn cael sicrwydd ynghylch glendid yn yr Ystafell Aros i safon sy'n hwyluso gweithgarwch atal a rheoli heintiau trylwyr.</p>	Gwasanaethau Gwesty	31 Ionawr 2021
		<p>Caiff y camau gweithredu uchod eu monitro drwy archwiliad a gynhelir gan y Gwasanaethau Gwesty. Rydym yn gweithio i sicrhau bod gennym fwy o oriau domestig mewn perthynas ag ardaloedd risg uchel a phwyntiau cyffwrdd, yn ogystal ag amserlenni glanhau mwy rheolaidd ar ôl i'r Podiau gael eu gosod.</p> <p>Mae'r tîm yn gweithio gyda chydweithwyr Atal a Rheoli Heintiau er mwyn hwyluso safonau glanhau nwydd.</p>	Gwasanaethau Gwesty	31 Ionawr 2021
				31 Ionawr 2021

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Jasleen Kaur (Pennaeth Nyrsio – Gofal Brys)

Dyddiad: 13 Ionawr 2021

Nodyn pwysig: Noder y darperir tystiolaeth ar gyfer camau gweithredu 3, 4, 5 a 6 i AGIC erbyn 5 Chwefror 2021 os bydd yn dderbyniol, am fod y camau gweithredu hyn yn dal i fynd rhagddynt yn unol â'r amserlen a nodwyd